

Wylfa Site Director's Report

22 June 2017

Stuart Law
Site Director



Site Director's Summary (February – May 2017)

Wylfa site operations

Wylfa entered its second year of defuelling in April and I am pleased to report that as of 7 June, the site was 39% defuelled overall.

Since April 2016, some 21,704 spent fuel elements have been removed and 145 flasks have been shipped to Sellafield.

Primary dry storage cell two (PDSC2) is one of a number of areas used to store irradiated fuel elements removed from Wylfa's two reactors. PDSC one and two are critical to Wylfa's defuelling programme as they provide storage capacity for fuel removed from Reactor 1 (which is currently critical path for the defuelling programme) as well as allowing fuel to be flaked and dispatched from site.

This year, PDSC2 suffered an unexpected seizure of its drive system – the likes of which hadn't been seen for 30 years. To fix the fault, the drive system was dismantled and rebuilt following the replacement of key components which is a very complex process. PDSC2 returned to service in March.



Inside the drive system



Dismantling the drive

We achieved a 100% operational state for fuel route equipment in May - with both reactors simultaneously defuelling and flasks being filled from the primary and secondary route for the first time since November 2015. However, the volume of faults and repairs remain higher than experienced during our final generation period.

In April, we received a formal Improvement Notice from the ONR to review our Asbestos Management Plan and ensure we are carrying out works on a risk based approach so that we can demonstrate we are tackling the highest priority items first. An action plan to address the asbestos Improvement Notice was subsequently developed and sent to the ONR. Debbie John, the ONR Conventional Safety Inspector, visited site on 2/3 of May to discuss the action plan and check on progress. A revised Asbestos Management Plan was presented to the ONR on 7 June.

Daily asbestos monitoring is being conducted, no levels of asbestos have been found to cause concern but extra precautions are being taken to safeguard personnel by restricting access to the turbine hall and the reactor equipment building.

Dry Store Cell 4 Intermediate Level Waste (ILW) Recovery Project

A project to recover fuel element corrosion debris from 37 skip tubes in Dry Store Cell 4 is preparing to enter active commissioning when access is made into the cell for the first time since its construction.

The project's test and recovery phase is complete; bespoke lifting equipment designed and manufactured by Mona Lifting, Llangefni and the remote recovery tools designed and manufactured by Beko Engineering, Beaumaris are in place.

Delicate remote handling will be required to deploy the recovery tools 6m into the cell to cut the fuel skip tubes away, lift them through a shield plughole in the cell's 2m thick concrete roof and place the ILW into Ductile Cast Iron Containers (DCICs).

This intricate procedure will be carried out in a dedicated room specifically adapted to operate the equipment remotely by the operatives who have spent hundreds of man-hours rehearsing the manoeuvres in live simulations off-site.

Subject to the agreement of the ONR, we expect retrieval operations to commence in August 2017.



One of three DCICs arriving on site

Maentwrog site operations

Generation for the financial year April 2016 until end of March 2017 slightly ahead, 53 GW against an annual target of 50 GW. Availability for the same period 89%.

Staff are currently making preparations for the annual Maintenance Outage which commences on 12 June 2017. Main work areas are the inspection and minor repairs to the two concrete tunnels and the inspection of the Low Pressure Pipeline. The tunnels and Low Pressure Pipeline are nominally 9.5' or 2.9 metre in diameter and are again approx. 1.75 mile long or 2.9 Km. Outside of an outage period, these tunnels and pipelines are completely filled with water from Trawsfynydd Reservoir.



Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)

Safety statistics 6 June 2017

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00

Days away case rate (DACR): 0.00

No of days since a lost time accident: 485

There have been no first aid injuries on site since March 2016.

Given the significant change the site has been through, it is worthy of celebration that the whole site's commitment to safety has resulted in a year without a TRIR and a DACR of zero. However, we continue to support and drive Magnox' Target Zero safety campaign to ensure we do not become complacent having achieved this goal.

A programme of safety culture training for First Line Supervisors was held across the company in the reporting period.

Visits/key dates

EDF Energy Visit 2 & 3 May

In a few years' time EDF Energy will be embarking upon its AGR closure programme. As Wylfa is the most recent site to transition from generation to defuelling we were asked to host a visit of five of their senior managers to share with them some of the key lessons learned during the transition.



European Nuclear Young Generation Forum 2017

Manchester is the host city to 400 young nuclear professionals from across the World for this prestigious event 11 – 16 June. A group of 28 delegates are visiting Wylfa and the Wylfa Newydd site on 14 June as part of the forum.

Workforce

As of 7 June, there were 304 employees and three Agency Supplied Workers on site (not including Security or Magnox Support Office staff based at Wylfa).

Magnox staff were supported with briefings from the NDA, Magnox and Trade Unions during the UK Government Pension Reform Consultation period.

Wylfa Sports & Social Club

The keys to Wylfa Sports & Social Club were formally handed over to Horizon Nuclear Power on 31 May, bringing an end to an important community asset that played host to countless events, parties, concerts, groups, training days and pantos since it was built.

Wylfa in the community

The Sports & Social Club pool table was donated to Ysgol Syr Thomas Jones School, Amlwch.

Naomi Cooper purchased her new wheelchair thanks to tremendous support from the community and a £1597 contribution from Wylfa staff/Contractors and the Sports & Social Club.



Matthew Roberts was the first participant to pass the Practical Driving Test on the Môn Communities First 'Journey to Work' programme, supported with £99,282 Magnox socio-economic scheme funding over three years.



Amlwch Town Football Club Under 16s in their Magnox branded kit – awarded £500 funding

For more information and the latest news from Wylfa, visit:

<https://magnoxsites.com>

<https://twitter.com/magnoxsites>

<https://www.linkedin.com/company/magnox>

<https://www.flickr.com/photos/magnoxsites>

Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

22 Mehefin 2017

Stuart Law

Cyfarwyddwr y Safle



Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle (Chwefror - Mai 2017)

Gweithredu ar safle Wylfa

Ym mis Ebrill, dechreuodd safle Wylfa ar y broses gwagio tanwydd am yr ail flwyddyn, ac rwy'n falch o gyhoeddi bod 39% o danwydd cyffredinol y safle wedi'i wagio ers 7 Mehefin.

Ers mis Ebrill 2016 mae tua 21,704 o elfennau tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio wedi'i dynnu ac mae 145 o fflagiau wedi cael eu cludo i Sellafield.

Mae cell storfa sych sylfaenol dau (PDSC2) yn un o'r nifer o fannau sy'n cael eu defnyddio i storio elfennau tanwydd arbelydredig sydd wedi cael eu tynnu o ddau adweithydd Wylfa. Mae PDSC un a dau yn hollbwysig i raglen gwagio tanwydd Wylfa gan eu bod yn darparu lle storio i'r tanwydd sy'n cael ei dynnu o Adweithydd 1 (sy'n llwybr critigol ar hyn o bryd ar gyfer y rhaglen gwagio tanwydd) yn ogystal â chaniatáu i danwydd gael ei roi mewn fflag a'i gludo oddi ar y safle.

Eleni, fe wynebodd PDSC3 ymosodiad annisgwyl ar ei system yrru - rhywbeth na welwyd ei debyg ers 30 o flynyddoedd. I drwsio'r nam, roedd yn rhaid tynnu'r system yrru yn ddarnau a'i hailadeiladu ar ôl cael cydrannau allweddol newydd a oedd yn broses gymhleth iawn. Roedd PDSC2 yn gweithio eto erbyn mis Mawrth.



Y tu mewn i'r system yrru



Tynnu'r gyrrwr yn ddamau

Fe wnaethom lwyddo i sicrhau cyflwr gweithredol 100% ar gyfer cyfarpar llwybr y tanwydd ym mis Mai - lle'r oedd y ddau adweithydd yn gwagio tanwydd ar yr un pryd a fflagiau'n cael eu llenwi drwy'r llwybr sylfaenol a'r llwybr eilradd am y tro cyntaf ers mis Tachwedd 2015. Fodd bynnag, roedd nifer y namau a'r gwaith trwsio yn dal yn uwch na'r hyn a welwyd yn ystod ein cyfnod cynhyrchu terfynol.

Ym mis Ebrill, cawsom Rybudd Gwella ffurfiol gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) i adolygu ein Cynllun Rheoli Asbestos ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwaith ar sail risgiau er mwyn dangos ein bod yn mynd i'r afael â'r eitemau gyda'r flaenoriaeth uchaf yn gyntaf. Ar ôl hynny lluniwyd cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r Rhybudd Gwella asbestos ac fe'i hanfonwyd i'r ONR. Daeth Debbie John, Arolygydd Diogelwch Confensiynol yr ONR i ymweld â'r safle ar 2/3 Mai i drafod y cynllun gweithredu ac i wirio'r cynnydd. Cyflwynwyd Cynllun Rheoli Asbestos diwygiedig i'r ONR ar 7 Mehefin.

Mae prosesau monitro asbestos yn cael eu cynnal bob dydd; does dim lefelau o asbestos yn achosi pryderon hyd yn hyn ond mae rhagor o ragofalon yn cael eu cymryd er mwyn diogelu personél drwy gyfyngu mynediad at neuadd y tyrbinau a'r adeilad lle mae cyfarpar yr adweithydd.

Prosiect Adfer Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW) Cell Storfa Sych 4

Mae prosiect i adfer malurion cryrydiad yr elfen tanwydd o 37 o diwbiau sgip yng Nghell Storfa Sych 4 yn paratoi ar gyfer proses gomisiynu weithredol pan roddir mynediad i'r gell am y tro cyntaf ers iddi gael ei hadeiladu.

Mae cam profi ac adfer y prosiect wedi gorffen; mae cyfarpar codi unigryw wedi'u cynllunio a'u gweithgynhyrchu gan Mona Lifting, Llangefni, a'r cyfarpar adfer o bell wedi'u cynllunio a'u gweithgynhyrchu gan Beko Engineering, Biwmares eisoes ar waith.

Bydd yn rhaid bod yn ofalus wrth geisio gosod y cyfarpar adfer 6m o bell yn y gell er mwyn torri'r tiwbiau sgip tanwydd i ffwrdd, eu codi drwy ddraen tarian yn nho concriid trwchus 2m y gell a rhoi'r ILW yn y Cynwysyddion Haearn Bwrw Hydwyth (DCIC).

Bydd y broses gywrain yn cael ei chynnal mewn ystafell benodol a fydd wedi'i haddasu i weithredu'r cyfarpar o bell gan weithredwyr sydd wedi treulio cannoedd o oriau yn ymarfer y symudiadau mewn prosesau efelychu byw oddi ar y safle.

Yn amodol ar gytundeb â'r ONR, rydym yn disgwyl i'r prosesau adfer ddechrau ym mis Awst 2017.



Un o'r tri DCIC yn cyrraedd y safle

Gweithredu ar safle Maentwrog

Roedd y broses gynhyrchu ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2016 tan ddiwedd Mawrth 2017 ychydig ar y blaen, 53 GW yn erbyn targed blynyddol o 50 GW. Mae'r argaeledd ar gyfer yr un cyfnod yn 89%.

Ar hyn o bryd mae Staff wrthi'n paratoi ar gyfer y Cyfnod Segur Blynyddol o gyflawni Gwaith Cynnal a Chadw sy'n dechrau ar 12 Mehefin 2017. Y prif fannau gwaith yw'r mân waith arolygu a thrwsio dau dwnnel concriid ac arolygu'r Biblinell Gwasgedd Isel. Fel rheol, mae diamedr y twnelau a'r Biblinell Gwasgedd Isel yn 9.5' neu'n 2.9 metr a'u hyd unwaith eto tua 1.75 milltir neu 2.9Km. Ac eithrio mewn cyfnod segur, mae'r twnelau a'r pibellau hyn yn llawn dŵr o Gronfa Ddŵr Trawsfynydd.



Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd

Ystadegau diogelwch 6 Mehefin 2017

Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00

Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00

Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 485

Does dim anafiadau cymorth cyntaf wedi bod ar y safle ers mis Mawrth 2016.

Ac ystyried y newid sylweddol mae'r safle wedi'i weld, mae rheswm i ddathlu bod ymrwymiad yr holl safle i ddiogelwch wedi arwain at flwyddyn heb TRIR a DACR o sero. Fodd bynnag, rydym yn parhau i gefnogi a llywio ymgyrch ddiogelwch Targed Sero Magnox er mwyn sicrhau nad ydym yn mynd yn ddi-hid ar ôl cyflawni'r nod hwn.

Cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant diwylliant diogelwch ar gyfer Goruchwylwyr Rheng Flaen ar draws y cwmni yn ystod y cyfnod adrodd.

Ymweliadau/dyddiadau allweddol

Ymweliad ag EDF Energy 2 a 3 Mai

Mewn ychydig o flynyddoedd bydd EDF Energy yn cychwyn ar ei raglen cau AGR. Gan mai Wylfa yw'r safle diweddaraf i drawsnewid o fod yn cynhyrchu ynni i fod yn gwagio tanwydd, gofynnwyd i ni gynnal ymweliadau ar gyfer pump o uwch reolwyr y cwmni i rannu rhai o'r prif wersi a ddsygwyd yn ystod y broses drawsnewid.



Fforwm Cynhyrchu Niwclear i Bobl Ifanc Ewrop 2017

Rhwng 11 ac 16 Mehefin fe fydd Manceinion yn cynnal digwyddiad anrhydeddus i 400 o weithwyr proffesiynol ifanc ym maes niwclear o bob cwr o'r byd. Bydd grŵp o 28 o gynrychiolwyr yn ymweld â safleoedd Wylfa a Wylfa Newydd ar 14 Mehefin fel rhan o'r fforwm.

Gweithlu

Ar 7 Mehefin roedd 304 o weithwyr a thri Gweithiwr a Gyflenwyd gan Asiantaeth ar y safle (heb gynnwys gweithwyr Diogelwch na staff Swyddfa Cymorth Magnox sydd wedi'u lleoli yn Wylfa).

Cafodd staff Magnox gefnogaeth drwy sesiynau briffio gyda'r NDA, Magnox ac Undebau Llafur yn ystod Cyfnod Ymgynghori ar Ddiwygio Pensiynau Llywodraeth y DU.

Ciwb Cymdeithasol a Chwaraeon Wylfa

Cafodd allwedd Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon Wylfa eu trosglwyddo i Pŵer Niwclear Horizon yn ffurfiol ar 31 Mai, gan roi terfyn ar ased cymunedol pwysig a gynhaliodd ddigwyddiadau, partïon, cyngerddau, grwpiau, diwrnodau hyfforddiant a phantomeimiau di-ri ers iddo gael ei adeiladu.

Wylfa yn y gymuned

Cafodd bwrdd pŵl y Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon ei roi i Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

Llwyddodd Naomi Cooper i brynu ei chadair olwyn newydd diolch i gefnogaeth aruthrol gan y gymuned a chyfraniad o £1597 gan staff/Contractwyr Wylfa a'r Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon.



Matthew Roberts oedd y cyntaf i basio'r Prawf Gyrru Ymarferol gyda rhaglen 'Taith i Waith' Cymunedau yn Gyntaf Môn, gyda chyllid gan gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox gwerth £99,282 dros dair blynedd.



Tîm o dan 16 Clwb Pêl-droed Amlwch yn eu cit gan Magnox - ar ôl cael cyllid o £500.

I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:

<https://magnoxsites.com>

<https://twitter.com/magnoxsites>

<https://www.linkedin.com/company/magnox>

<https://www.flickr.com/photos/magnoxsites>